Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 27.10.25 |
| **Pwnc / Subject:** | Rhianta corfforaethol: rhan 6 cod ymarfer ar blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn croesawu'r diwygiadau arfaethedig i Ran 6 y Cod Ymarfer. Rydym yn cydnabod bod rhianta corfforaethol yn ddyletswydd statudol ac yn ymrwymiad moesegol, a bod gan gyrff cenedlaethol fel Estyn rôl hanfodol mewn dwyn systemau i gyfrif am ba mor dda maent yn darparu i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Hefyd, rydym yn cydnabod gwerth cyflwyno cysyniad rhianta cymunedol, ar yr amod bod diffiniad clir ei fod yn ategol i rianta corfforaethol, yn hytrach na'i ddisodli. Gallai hyn helpu i gysylltu rhwydweithiau ehangach o gymorth i blant a phobl ifanc, tra'n sicrhau bod atebolrwydd statudol yn parhau i fod yn glir.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnig sylfaen gadarnach ar gyfer cyfrifoldeb traws-asiantaeth. Fodd bynnag, mae ein tystiolaeth arolygu yn dangos bod deilliannau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal islaw deilliannau eu cymheiriaid o hyd, gydag amrywiaeth sylweddol ar draws Cymru. Mae angen ffocws mwy pendant ar addysg, lles, sefydlogrwydd lleoliadau ac ymarfer cyson er mwyn i'r cod gael effaith wirioneddol.

Yn hollbwysig, mae cysylltiadau cryf rhwng profiad o fod mewn gofal a chael anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Amlygodd adroddiad thematig diweddar Estyn ar ADY[2] wendidau yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag ADY. Mae hyn yn codi pryder penodol am degwch i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal a allai wynebu 'anfantais ddwbl' os na ellir bodloni eu hanghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellid cryfhau'r cod trwy gyfeirio'n benodol at y risg hon.

**Negeseuon allweddol**

- Cadw atebolrwydd yn glir – cadw *rhianta corfforaethol* fel disgrifiad statudol; defnyddio *rhianta cymunedol* i ddisgrifio cyfraniad partneriaid anstatudol yn unig.

[2] Adroddiad thematig – Y system anghenion dysgu ychwanegol - Estyn

- Cryfhau'r ffocws ar addysg – sicrhau bod y cod yn blaenoriaethu cynnydd addysgol, sefydlogrwydd lleoliadau, a lles, nid dim ond deilliannau iechyd a gofal.
- Gwarantu cysondeb ar draws Cymru – gosod disgwyliadau gofynnol ar gyfer ansawdd Cynlluniau Addysg Personol (CAPau), hyfforddiant proffesiynol (ystyriol o drawma ac ymlyniadau), a chasglu data.
- Mesur cynnydd yn ehangach – cynnwys lles, llais y dysgwr a deilliannau hirdymor ochr yn ochr â phresenoldeb a chyrhaeddiad.
- Cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ddwyieithog – gofyn bod CAPau yn cofnodi dewis ieithyddol ac yn sicrhau mynediad teg at addysg a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mynd i'r afael â gwendidau yn y ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg fel nad yw dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal sydd ag ADY dan anfantais ddwbl.
- Manteisio ar dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg – mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Estyn i ymgymryd ag adolygiad thematig o ddeilliannau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal (cyhoeddir yr adroddiad flwyddyn nesaf). Dylid defnyddio'r canfyddiadau i gryfhau fersiynau o'r cod yn y dyfodol a darparu arweiniad ymarferol ar gyfer gwella.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Adran: rhagarweiniad a phenodau 1 a 2**

**C1: Ydych chi'n cytuno â'r ychwanegiadau a'r diwygiadau arfaethedig i'r adrannau hyn o'r cod?**

**Ydym**

Mae Estyn yn cefnogi'r diwygiadau arfaethedig. Mae'r pwyslais cryfach ar rianta corfforaethol yn cael ei groesawu, fel y mae cydnabod rôl amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus. Mae'r ychwanegiadau yn cyd-fynd â'r Siarter Rhianta Corfforaethol, y mae Estyn wedi ymrwymo i'w chefnogi. Rydym yn cymeradwyo'n benodol fynegi dyletswyddau'n gliriach ar draws asiantaethau, er y byddem yn annog cyfeiriad mwy eglur at fonitro cynnydd mewn addysg, lles a sefydlogrwydd lleoliadau.

Rydym yn nodi dileu'r cyfeiriad at strategaeth 2019 Llywodraeth Cymru ar gyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Er bod hyn yn ddealladwy o gofio bod y ddogfen wedi dyddio, mae'n bwysig ein bod yn parhau i amlygu bod addysg yn elfen ganolog o gyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Argymhellwn yn hytrach fod yr adran hon yn cyfeirio at yrwyr presennol, fel Cwricwlwm i Gymru, y fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol[3] ac agenda tegwch ehangach Llywodraeth Cymru.

[3] Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol | LLYW.CYMRU

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Estyn ymgymryd ag adolygiad thematig o ddeilliannau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, i'w gyhoeddi'r flwyddyn nesaf. Gellid manteisio'n ddefnyddiol ar ganfyddiadau o'r gwaith hwn i gryfhau fersiynau o'r cod yn y dyfodol a sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf o'r hyn sy'n gweithio.

**Os nad ydych, a allech chi esbonio pa welliannau eraill sydd eu hangen?**

**Adran 2: rhianta corfforaethol**

**C2: Beth yw eich barn chi am y term "rhianta cymunedol"?**

Mae Estyn yn croesawu'r gwahaniaeth a wneir rhwng *rhianta corfforaethol* (dyletswyddau statudol awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill) a *rhianta cymunedol* (cyfraniad ehangach y rhai nad oes ganddynt gyfrifoldeb statudol). Gall yr ail fod yn derm defnyddiol i gael ysgolion, mudiadau gwirfoddol a chymunedau i gydnabod eu rôl o ran cefnogi plant â phrofiad o fod mewn gofal.

Fodd bynnag, rhaid cyfleu'r ddau derm yn glir ac yn gyson. Dylai rhianta corfforaethol barhau i fod yn ddisgrifiad diamwys o atebolrwydd statudol, tra gall rhianta cymunedol fframio neges fwy cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn, i'r gymuned ehangach.

**C3: Beth yw eich barn chi am y cynigion yn yr adran hon o'r bennod ar baneli neu grwpiau rhianta corfforaethol?**

Rydym yn cefnogi datblygiad paneli/grwpiau rhianta corfforaethol. Mae angen strwythurau amlasiantaethol cryfach i leihau anghysondeb rhwng awdurdodau lleol.

Dylai paneli gynnwys addysg, iechyd, tai a chyfiawnder ieuenctid, gyda mecanweithiau i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu cipio fel mater o drefn, a gweithredu arnynt.

I osgoi dyblygu, rhaid i'r paneli hyn gysylltu'n uniongyrchol â byrddau diogelu a lles lleol presennol.

**C4: Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer yr adran hon o'r bennod? Oes unrhyw beth ar goll?**

Yn hollbwysig, mae cysylltiadau cryf rhwng profiad o fod mewn gofal a chael anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Amlygodd adroddiad thematig diweddar Estyn ar ADY wendidau yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag ADY. Mae hyn yn codi pryder penodol am degwch i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal a allai wynebu 'anfantais ddwbl' os na ellir bodloni eu hanghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai'r cod gyfeirio'n benodol at y risg hon.

Rydym yn croesawu'r cynigion ond yn credu bod angen cryfhau dwy agwedd:

- Rhaid blaenoriaethu addysg yn gyson ochr yn ochr ag iechyd a gofal. Mae ein tystiolaeth yn dangos gormod o amrywiaeth yn y ffordd y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn cefnogi dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal, yn enwedig o ran proses y Cynllun Addysg Personol (CAP).
- Dylid gosod disgwyliadau gofynnol ar gyfer hyfforddiant (e.e. dulliau sy'n ystyriol o drawma ac ymlyniad) i weithwyr proffesiynol sydd â chyfrifoldebau rhianta corfforaethol.

**C5: Ydych chi'n meddwl y byddai'r wybodaeth hon wedi'i lleoli'n well ar blatfform cenedlaethol neu leol? Esboniwch.**

Mae platfform cenedlaethol yn well er cysondeb, tryloywder ac atebolrwydd.

Mae hyblygrwydd lleol yn bwysig, ond heb fframwaith canolog, bydd arfer yn parhau i amrywio'n fawr ar draws Cymru.

Byddai canllawiau lefel genedlaethol â chyfrifoldebau adrodd lleol yn cynnig cysondeb a hyblygrwydd.

**C6: Yn eich barn chi, beth fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o fesur cynnydd o ran rhianta corfforaethol?**

Mae mesur cynnydd mewn rhianta corfforaethol yn gymhleth, gan ei fod yn mynd y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau. I fod yn effeithiol, dylai mesur gipio dangosyddion meintiol a phrofiadau ansoddol – llais y plentyn. Yn ymarferol, mae'r systemau mwyaf effeithiol yn aml yn cyfuno mesurau caled â phrofiadau bywyd, gan sicrhau nad yw adrodd ar berfformiad yn ymwneud dim ond â thicio blychau, ond cipio p'un a yw plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel, bod cymorth iddynt a'u bod yn gallu ffynnu.

Mae Estyn o'r farn mai'r dull mwyaf effeithiol fyddai fframwaith cytbwys sy'n cipio cynnydd addysgol, lles, sefydlogrwydd lleoliadau a llais y dysgwr.

Ar hyn o bryd, nid oes un mesur lles cenedlaethol unigol yng Nghymru ac mae hyn yn creu anghysondeb. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio offer gwahanol, fel arolwg PASS neu'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau, ond nid oes disgwyliad safonol ar draws y system.

Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru:

- Yn datblygu neu'n mabwysiadu mesur lles cenedlaethol i gynnig cysondeb a'r gallu i gymharu ar draws awdurdodau lleol ac ysgolion.
- Yn cysylltu dyletswyddau rhianta corfforaethol â dulliau ysgol gyfan ar gyfer lles (er enghraifft, canllawiau'r *Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol*[4]).
- Yn gofyn am adrodd ar ddangosyddion cynnydd ehangach, fel sefydlogrwydd lleoliadau ysgol, gostyngiad mewn gwaharddiadau, dyheadau dysgwyr a llwybrau ôl-16, i roi darlun llawnach o ddeilliannau.

**Adran 3: pennod 4**

**C7: Ydych chi'n cytuno â'r ychwanegiadau a'r diwygiadau arfaethedig i'r adrannau hyn o'r cod?**

**Ydym**

Rydym yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig, yn enwedig y pwyslais ar gyfrifoldeb amlasiantaethol a chamu i oedolaeth.

Mae cysoni â chynllun 'Pan fydda i'n barod' i'w groesawu, ond mae angen eglurder pellach ynghylch cyfrifoldeb am gymorth ôl-18, o ystyried pryderon parhaus am addysg a chyflogaeth ymadawyr gofal.

**Os nad ydych, a allech chi esbonio pa welliannau eraill sydd eu hangen?**

**Adran 4: cwestiynau ychwanegol**

**C8: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.**

Yn ystod ein harolygiadau o ysgolion annibynnol, rydym yn parhau i nodi gwendidau yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn monitro ansawdd profiadau addysgol a deilliannau plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu hariannu gan awdurdod lleol i fynychu

[4] Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol | LLYW.CYMRU

ysgol annibynnol. Gellid cryfhau ymhellach yr agwedd hon ar rianta corfforaethol yn y canllawiau.

**C9: Ydych chi'n meddwl y bydd unrhyw un o'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon yn cael unrhyw ganlyniadau anfwriadol? Os ydych, esboniwch.**

Y brif risg yw dryswch os na chaiff y gwahaniaeth rhwng rhianta corfforaethol a rhianta cymunedol ei gyfleu yn glir.

Hefyd, mae risg dyblygu strwythurau llywodraethu oni bai bod paneli rhianta corfforaethol yn cael eu halinio'n ofalus â byrddau presennol.

**C10: Beth yw eich barn ar effaith debygol y newidiadau arfaethedig i god ymarfer rhan 6 (rhianta corfforaethol) ar grwpiau penodol o bobl, yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi?**

Dylai'r newidiadau gael effaith gadarnhaol, ar yr amod bod y gweithredu yn gadarn. Mae plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal eisoes yn wynebu haenau lluosog o anfantais. Dylai cod cryfach leihau anghydraddoldebau o ran mynediad at addysg, gofal iechyd a chartref diogel

Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn gwreiddio dulliau cyfannol. Er enghraifft, ystyried sut mae anabledd, hil a chyfeiriadedd rhywiol yn rhyngweithio â statws gofal.

Bydd plant a phobl ifanc yn elwa o ymglymiad mwy cyson, priodol yn ddatblygiadol, â phenderfyniadau, a bydd ymadawyr gofal yn debygol o weld cynllunio gwell ar gyfer pontio i oedolaeth. I blant anabl â'r rhai ag ADY, dylai'r ffocws ar baratoi ar gyfer symud ac adolygiadau, ochr yn ochr â dyletswyddau traws-asiantaeth cliriach, leihau tarfu a chynyddu mynediad at addasiadau rhesymol ar draws addysg, iechyd a thai.

Mae potensial hefyd i'r cynigion leihau anghydraddoldebau sy'n cael eu profi gan grwpiau â nodweddion gwarchodedig, fel hil, rhyw neu anabledd, trwy wreiddio atebolrwydd ar draws y system gyfan, nid dim ond gwasanaethau plant ond tai, addysg, iechyd, trafnidiaeth a hamdden, hefyd.

**C11: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau arfaethedig i god ymarfer rhan 6 (rhianta corfforaethol) yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Rydym yn cefnogi cryfhau dimensiwn y Gymraeg. Dylai plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal gael mynediad cyfatal at addysg a lleoliadau gofal trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol trwy:

- Fynnu bod CAPau yn cofnodi dewis a darpariaeth ieithyddol.
- Sicrhau bod gofalwyr maeth a lleoliadau preswyl yn gallu cael at gymorth â'r Gymraeg.
- Monitro effaith dyletswyddau rhianta corfforaethol ar ddysgwyr cyfrwng Cymraeg.

Mae cysylltiadau cryf rhwng plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Canfu gwaith thematig Estyn ar ADY fod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer ADY yn anghyson a'i fod yn wan mewn rhan ardaloedd. Mae i hyn oblygiadau i degwch: heb weithredu targedig, gallai plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal sydd ag ADY wynebu 'anfantais ddwbl' wrth sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg briodol.

Byddai cryfhau'r cod i adlewyrchu hyn yn helpu i ddiogelu eu hawliau a sicrhau bod egwyddor peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cael ei gwireddu yn ymarferol.